OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 852

# Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007

**Achosion gwarchod oedolion**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo corff GIG neu awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau gwarchodol, neu yn bwriadu trefnu iddynt gael eu cymryd, mewn perthynas â pherson (P) sydd â diffyg galluedd i gytuno i un neu fwy o'r camau hynny.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan fo corff GIG neu awdurdod lleol yn cael hysbysiad o honiad neu yn cael tystiolaeth—

(a) bod P yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ei fod wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu

(b) bod P yn cam-drin neu wedi cam-drin person arall

caiff roi cyfarwyddyd i EAGM os yw wedi ei fodloni y byddai'n fuddiol i P gael ei gynrychioli a'i gefnogi.

(3) Pan fo corff GIG neu awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd i EAGM o dan y rheoliad hwn rhaid i'r corff neu'r awdurdod hwnnw, wrth wneud unrhyw benderfyniad ynglyn â chamau gwarchodol sydd i'w cymryd mewn perthynas â P, ystyried unrhyw wybodaeth a roddwyd gan yr EAGM neu unrhyw gyflwyniadau a wnaed ganddo.

(4) Ni cheir rhoi cyfarwyddyd i EAGM o dan y rheoliad hwn pan fo EAGM wedi cael cyfarwyddyd yn unol ag adrannau 37, 38 neu 39 o'r Ddeddf neu â rheoliad 8.

(5) Mae "Camau Gwarchodol" ("Protective Measures") yn cynnwys camau i leihau'r risg y bydd unrhyw gam-drin neu esgeulustod o P, neu gam-drin gan P, yn parhau a chamau a gymerir yn unol â chanllawiau a ddyroddir dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970(**1**).

(**1**) 1970 p.42